cartrefi gwell, dyfodol disglair
better homes, brighter future

DATGANIAD I'R WASG
Mawrth 2010

Tenantiaid Tai Ceredigion yn cael toeon newydd a chartrefi cynhesach

Mae Hag Harris, Cadeirydd y gymdeithas dai leol newydd, Tai Ceredigion, ac Ivor Williams, Cadeirydd Cyngor Ceredigion, wedi bod ar daith ymchwil o gwmpas ystadau lleol yn Llanbedr Pont Steffan. Roedd y daith yn cynnwys ymweld ag wyth o gartrefi sydd ymhlith y cyntaf i gael eu huwchraddio ers i Tai Ceredigion fynd yn gyfrifol am dai a fu'n eiddo i Gyngor Ceredigion.

Mae'r tai yn Kinsgmead, Llanbedr Pont Steffan, a godwyd yn 1949, yn cael eu hail-doi dros gyfnod o 12 wythnos gan y contractwr lleol, Randell & Janes. Mae'r gwaith yn golygu inswleiddio'r toeon â 300mm o wlân gwydr, a fydd yn arbed arian ar ynni ac yn rhoi cartrefi cynhesach i'r deiliaid. Mae tri gwahanol fath o ddyluniad to, a bydd y cyfan yn cael llechi newydd ynghyd â chafnau newydd. Bydd y bondoeau hefyd yn cael eu hadnewyddu os oes angen.

Dywedodd Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion: "Mae'r gwaith hwn yn Llambed, ynghyd â gosod ffenestri newydd mewn rhannau eraill o'r sir, yn enghreifftiau o'r gwaith brys sy'n cael ei wneud gan Tai Ceredigion cyn dechrau ar y brif raglen o welliannau. Ym mhob un o'r cyfarfodydd bwrdd misol rydym yn eu cynnal o amgylch y sir, rydym yn gwahodd cynghorwyr sir lleol a chynrychiolwyr y tenantiaid i ymuno ag aelodau'r bwrdd i fynd o gwmpas cartrefi Tai Ceredigion i drafod syniadau am welliannau yn y dyfodol. Mae'r ymweliadau hyn, ynghyd â chymorthfeydd cynghori misol, yn helpu Tai Ceredigion i gynllunio'r rhaglen foderneiddio pan fydd £40 miliwn yn cael ei wario."

DIWEDD